# Uchafbwyntiau 2025

*gan gynnwys ein* **Crynodeb o'r Datganiad Ariannol**

# Yr hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd



Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu

# Adolygiad y Cadeirydd o'r Flwyddyn

## Croeso

Mae'n bleser gennyf ysgrifennu atoch unwaith eto fel Cadeirydd eich Cymdeithas, a chyflwyno'r Crynodeb o Ddatganiad Ariannol Cymdeithas Adeiladu Principality.

Diolch am eich ymddiriedaeth a'ch cefnogaeth barhaus. Mae popeth a wnawn yn cael ei arwain gan y gred y dylai cymdeithas gydfuddiannol gyfoes ddarparu gwerth gyda phwrpas, cefnogi ein cymunedau gydag uniondeb a gweithredu'n feiddgar.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwrthsefyll grymoedd economaidd sydd wedi parhau i ddod â heriau i'n cymunedau ledled y wlad – mae cyfradd sylfaenol Banc Lloegr wedi gostwng ond mae'n parhau i fod yn uchel, a chwyddiant yn dal i fod yn barhaus – gan ei gwneud yn anodd i'r rhai sydd eisiau cymryd y camau cyntaf ar yr ysgol eiddo. Ar yr wyneb mae'r gyfradd sylfaenol uwch yn newyddion da i gynilwyr ond mae'r ergyd i incwm a achosir gan chwyddiant yn golygu y bu'n flwyddyn anoddach i gynilo ar gyfer ansicrwydd bywyd.

Mae eich Cymdeithas yn cydnabod yr heriau hyn, ac mae ein pwrpas yn parhau i fod yn gadarn: adeiladu cymdeithas o gynilwyr, lle mae gan bawb le i'w alw'n gartref.

## Troi'r dudalen at y bennod nesaf

Fel y gŵyr yr Aelodau, ar ôl 18 mlynedd gyda'r Gymdeithas a phum mlynedd fel Prif Swyddog Gweithredol, cyhoeddodd Julie-Ann Haines y byddai'n camu i lawr o'r rôl ac yn cymryd swydd newydd yn haf 2026. Mae Julie-Ann wedi cyflawni llawer i'ch Cymdeithas dros y blynyddoedd lawer hynny, ac rwy'n gwybod y bydd hi yr un mor llwyddiannus gyda'r hyn a ddaw nesaf iddi. Hoffwn estyn fy niolch diffuant i Julie-Ann am ei hymroddiad a'i stiwardiaeth sydd wedi bod yn amhrisiadwy i Principality a'n Haelodau.

Nid yw'r byd o'n cwmpas yn sefyll yn llonydd, ac felly ni ddylem ni wneud hynny ychwaith. Roedd y Gymdeithas yn falch iawn o gyhoeddi penodiad Iain Mansfield yn Brif Swyddog Gweithredol ym mis Hydref, cyn iddo ddechrau'r rôl ym mis Tachwedd. Ei brofiad, ei egni a'i ymrwymiad i'r Gymdeithas yw'r union beth sydd ei angen ar y busnes i fynd â ni trwy bennod nesaf ein hanes.

Mae wedi ymrwymo llawer iawn o'i yrfa broffesiynol i Gymru, a'r 11 mlynedd diwethaf o'r blynyddoedd hynny i'n Cymdeithas ni, mewn rolau arwain gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredu, Prif Swyddog Cyllid a gwasanaethu ar y Bwrdd ers 2019. Rydym wrth ein bodd gyda'i benodiad ac i fod â thalent a fagwyd yng Nghymru yn arwain y busnes.

Mae'r trosglwyddiad hwn yn nodi ennyd naturiol o bontio wrth i ni edrych ymlaen gydag eglurder a phwrpas, gan esblygu ein busnes i wella teithiau digidol ac ar-lein, yn ogystal â chynnal ein gwasanaethau wyneb yn wyneb i chi, ein Haelodau.

## Esblygu a newid

Yn genedlaethol, mae rôl cymdeithasau cydfuddiannol yn parhau i gael cydnabyddiaeth trwy'r gwerth y maent yn ei ddarparu i'r Aelodau a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae ymchwil gan Gymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu yn nodi, y llynedd, fod Aelodau cymdeithasau adeiladu wedi derbyn £4 biliwn yn fwy mewn gwerth ychwanegol nag y byddent wedi'u derbyn gan fanciau[1].

Roeddem yn falch o gefnogi'r ymgyrch ISA Arian Parod y llynedd, a welodd ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys Cymdeithasau Adeiladu, Undebau Credyd a darparwyr eraill yn ymuno â'i gilydd i alw ar Lywodraeth y DU i arbed ISA Arian Parod a chynnal y terfyn ar gyfer pob Aelod. Er nad diogelu'r terfyn tanysgrifio yn llawn fu canlyniad hyn, rydym yn cydnabod bod y Canghellor wedi cymryd amser i ystyried newidiadau i'r drefn.

Gyda hynny, ac wrth i ni ddathlu 250 mlynedd o sector y cymdeithasau adeiladu, rwy'n falch o'r ffaith ein bod yn dal i hyrwyddo'r gwerthoedd a ysbrydolodd ein mudiad yn gyntaf. Gyda Chymdeithas y Cymdeithasau

Adeiladu yn ethol Cadeirydd newydd yn ddiweddar, ynghyd â Phrif Swyddog Gweithredol newydd, ac ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddyblu maint y sector cydfuddiannol, mae momentwm a ffocws newydd i dwf.

Yn lleol, disgwylir i Etholiad y Senedd sydd i ddod gyflawni newid sylweddol. Waeth beth yw union gyfansoddiad a blaenoriaethau Llywodraeth nesaf Cymru, byddwn yn parhau i bwysleisio'n falch y rôl y gall sefydliadau a arweinir gan bwrpas, fel Principality, ei chwarae wrth lunio twf a llwyddiant hirdymor.

Yn Principality, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni gydbwyso'r traddodiad hwn ag arloesedd. Rydym wedi cryfhau ein ffocws hirdymor ac wedi cyflymu moderneiddio ar draws y Gymdeithas, er budd ein Haelodau ac i Gymru. Mae'n bleser gennyf adrodd ein bod eleni wedi cynhyrchu £88m[2] o werth i chi, ein Haelodau, gan ail-fuddsoddi elw i ddarparu buddion i gynilwyr, benthycwyr a'r cymunedau yr ydym yn falch o'u gwasanaethu.

## Elw yn Pweru ein Pwrpas

Mae ein perfformiad eleni yn adlewyrchu cryfder ein model cydfuddiannol: nid diben ynddo'i hun yw elw yn Principality, mae'n fodd o bweru pwrpas.

Mae'n ein galluogi i fuddsoddi yn y gwasanaethau a'r cyfraddau cymhellol y mae ein Haelodau yn dibynnu arnynt, i arloesi ein busnes yn gyfrifol, ac i gefnogi pobl a lleoedd ledled Cymru a'r DU ehangach. Er ein bod yn parhau i wella ymwybyddiaeth o'n brand y tu hwnt i Gymru, mae ein hymrwymiad yn parhau i fod wedi'i wreiddio'n gadarn gartref - gan sicrhau bod y gwerth yr ydym yn ei greu yn cael ei ail-fuddsoddi yn ôl yng nghymunedau Cymru, lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Mae ein helw yn ein galluogi i gyflawni effaith y tu hwnt i'n maint, gyda £1.5m wedi'i ymrwymo i'n mentrau Effaith Gymdeithasol eleni. Wrth wraidd ein pwrpas, mae ymrwymiad i wella bywydau pobl yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Eleni, fe wnaethom ddathlu pumed rownd ein Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan ategu llwyddiant y blynyddoedd blaenorol – pan wnaethom gyfrannu £2m i 128 o elusennau a grwpiau cymunedol ledled Cymru - rydym yn parhau i flaenoriaethu sefydliadau a phrosiectau sy'n darparu hyfforddiant a chymorth amhrisiadwy i bobl na chaiff eu gwasanaethu'n ddigonol ac sy'n agored i niwed.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio i ddiogelu a gwella ein proffidioldeb, mae ein huchelgais i dyfu'r busnes Masnachol yn parhau i fod yn gryf. Hyd yn oed wrth lywio amgylchedd cyfradd sylfaenol uwch, rydym wedi aros yn weithredol ac yn agored iawn i fusnes ar draws yr holl sectorau yr ydym yn gweithredu ynddynt.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar faterion y farchnad dai, gyda thai cymdeithasol yn rhan annatod o'n strategaeth.

## Edrych Ymlaen

Mae Principality yn dechrau pennod newydd - un fydd yn cael ei diffinio gan fod yn feiddgar wrth wneud penderfyniadau a moderneiddio gan gadw ffocws cadarn ar fod yn gydfuddiannol.

Wrth i ni dyfu ein presenoldeb ledled y DU, mae ein gwreiddiau yng Nghymru yn parhau i fod wrth wraidd pwy ydym ni. Mae ein strategaeth ar gyfer y degawd i ddod yn canolbwyntio ar groesawu newid, darparu gwerth i Aelodau, ac ysgogi perfformiad masnachol cryf i alluogi buddsoddiad parhaus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Diolch am eich ymddiriedaeth barhaus. Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu i greu cymdeithas cydfuddiannol gyfoes sy'n cyflawni ar gyfer yr Aelodau a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.



**Simon Moore**
Cadeirydd

19 Chwefror 2026

[1] Adroddiadau blynyddol Cymdeithasau Adeiladu 2024/25.

[2] Cyfanswm gwerth y budd i gwsmeriaid CA Principality rhwng Tachwedd 2024 a Hydref 2025, yn seiliedig ar gyfradd gynilo cyfartalog diwedd mis y Gymdeithas o'i gymharu â chyfradd gyfartalog gweddill y farchnad Cyfrifon Cyfredol a Chronfa Ddata Cynilion CACI Ltd ar gyfer cyfrifon cynilo, ac eithrio cyfrifon cyfredol a chynilion gwrthbwyso, ar gyfer 12 mis y flwyddyn.

# Adolygiad y Prif Weithredwr o'r Flwyddyn



## Pennod newydd i gymdeithas fwyaf Cymru

Mae'n bleser gennyf ysgrifennu atoch chi, ein Haelodau, fel Prif Swyddog Gweithredol cymdeithas adeiladu fwyaf Cymru am y tro cyntaf. Ar ôl gwasanaethu'r busnes hwn dros 11 mlynedd diwethaf fy ngyrfa, rwy'n hynod falch o fod yn arwain y busnes gorau yng Nghymru.

Mae'n ddechrau cyfnod gwirioneddol drawsnewidiol, un lle byddwn yn cymryd y camau nesaf beiddgar i ail-ddychmygu sut rydym yn cyflawni ar eich rhan chi heddiw wrth sicrhau ein dyfodol ar gyfer y genhedlaeth nesaf o Aelodau.

Rwy'n llawn egni a chyffro am y cyfle a'r posibilrwydd y mae eich Cymdeithas yn ei gynnig wrth i ni gamu i'w phennod nesaf. Fy ngweledigaeth strategol yw trawsnewid Principality yn gymdeithas gydfuddiannol sy'n canolbwyntio ar berfformiad masnachol, cyflymder a gweithrediad, gyda chynnig digidol cryf sy'n ategu presenoldeb unigryw ein canghennau.

O dan fy arweinyddiaeth i, byddwn yn hogi ein ffocws masnachol gan aros yn driw i'n gwreiddiau cydfuddiannol – cydbwyso cyflawni ein pwrpas gyda'r angen i ysgogi elw a galluogi degawd o fuddsoddiad i gefnogi cenedlaethau o Aelodau yn y dyfodol.

Mae hyn yn golygu y bydd llawer y bydd eich Cymdeithas yn ei wneud yn wahanol dros amser, i'n symud yn feiddgar i'n pennod nesaf – o greu ap sy'n ei gwneud hi'n haws rheoli eich cyfrifon gyda ni ar-lein, i gyflwyno cynhyrchion newydd a chyffrous sy'n diwallu eich anghenion cynilo a benthyca.

Byddwn yn gwneud hyn gan wneud y buddsoddiadau strategol sydd eu hangen arnom, gan ein cadw'n berthnasol ar gyfer y dyfodol a chreu gwell enillion i Aelodau, gan ein galluogi i fuddsoddi mwy yn yr hyn sy'n bwysig yn y pen draw.

Mae'n hanfodol bod gennym y tîm cywir gyda'r profiad gorau i fynd â ni ymlaen – dyna pam yr wyf wedi bod yn creu'r tîm gorau posibl i arwain y busnes. Un o'r penodiadau allweddol hynny yw ein Prif Swyddog Technoleg, Patrick Connolly, rôl newydd i'r busnes a fydd yn cryfhau ein cynnig digidol.

Mae 2025 wedi bod yn flwyddyn o gynnydd i'ch Cymdeithas. Blwyddyn lle gwnaethom symud y sefydliad ymlaen mewn ffyrdd ystyrlon, gan ddarparu gwerth gwirioneddol i'n cynilwyr a'n benthycwyr - helpu pobl i gynilo a phrynu eu cartrefi eu hunain.

## Ein canlyniadau ariannol

Mae cyflymder y newid cymdeithasol yn chwim, gyda datblygiadau mewn technoleg yn ail-lunio marchnadoedd gwasanaethau ariannol a disgwyliadau cwsmeriaid. Ar yr un pryd, mae Aelodau a busnesau yn wynebu amgylchedd allanol anwadal - gyda chyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn parhau i fod yn uchel, chwyddiant parhaus, ac ymddangosiad busnesau newydd a banciau heb ganghennau yn rhoi pwysau ar gyfraddau.

Er gwaethaf y cefndir hwn, mae eich Cymdeithas wedi cyflawni canlyniadau ariannol cryf gydag elw cyn treth o £60.0m (2024: £49.2m) wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar greu gwerth i'n Haelodau.

Ar yr un pryd, rydym wedi parhau â'r gwaith o symleiddio ein busnes, ac o ganlyniad, mae ein Cymhareb Treuliau Rheoli (ManEx), cost rhedeg y busnes, wedi gostwng i 0.84% (2024: 0.94%).

Ar draws ein busnesau cynilo a benthyca, mae newyddion cadarnhaol i'w adrodd.

Rydym yn arallgyfeirio ein portffolio cyllido, a dyna pam, yn ail hanner 2025, yr oeddem yn falch o gyhoeddi sefydlu ein rhaglen bondiau â sicrwydd, gan gryfhau gwydnwch ariannol eich Cymdeithas, sefydlogrwydd

cyllido a mynediad i farchnadoedd cyfalaf – gan ddarparu amrywiaeth o gyllid a dewisiadau i ni, yn unol â'n cystadleuwyr.

Rydym hefyd wedi tyfu ein balansau cynilo £0.8bn i £11.6bn yn 2025 (2024: £10.8bn), wrth i ni ymdrechu i gadw gwerth ar gyfer Aelodau trwy ein rhwydwaith manwerthu gan gadw ffocws llym ar hybu ein sianeli cynilo digidol.

Fel busnes cyfrifol, rydym wedi blaenoriaethu enillion dros dwf, gan hefyd ddefnyddio hylifedd dros ben, gan drosi arian parod yn forgeisi i bob pwrpas - a dyna pam mae cyfanswm ein hasedau bellach yn £13.9bn (2024: £14.1bn). Mae ein harferion benthyca darbodus yn golygu, yn wyneb marchnadoedd cynilo a benthyca cystadleuol, ein bod wedi parhau i weld twf cynaliadwy yn ein llyfr morgeisi o £0.6bn, gan fynd â'n benthyciadau preswyl i £11.1bn yn 2025 (2024: £10.5bn), a'n twf cronnol dros y tair blynedd diwethaf i £2.8bn.

Mae'r twf hwn yn gwrthbwyso i raddau helaeth y gostyngiad o 1% yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr dros y flwyddyn i 3.75% ym mis Rhagfyr 2025 (2024: 4.75%) a arweiniodd at ostyngiad mewn llog derbyniadwy – sy'n golygu bod Elw Llog Net y Gymdeithas wedi parhau'n sefydlog ar 1.21% (2024: 1.22%).

Rwy'n falch o rannu ein bod wedi cynnal sefyllfa gyfalaf a hylifedd gref yn ystod y flwyddyn, gyda chymhareb cyfalaf o 18.7% (2024: 19.8%) a chymhareb hylifedd o 13.6% (2024: 18.9%), gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer twf a buddsoddiad parhaus yn y Gymdeithas, gan sicrhau ein bod yn gallu diwallu anghenion ein Haelodau nawr ac yn y dyfodol.

## Busnes benthyca – lle mae cartref yn bwysig

Mae helpu pobl i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain yn parhau i fod wrth wraidd pwy ydym ni, ac yn gonglfaen allweddol i'n strategaeth ac yn sbardun twf ein llyfr morgeisi i 88,941 o Aelodau yn 2025 (2024: 87,558).

Yn wyneb fforddiadwyedd yn gwella, mae galw gan brynwyr wedi parhau i fod yn gadarn. Gyda galw mawr am ein cynhyrchion LTV 95%, ynghyd â'n meini prawf benthyca cynhwysol, fe wnaethom helpu 8,277 o bobl i gymryd eu cam cyntaf ar yr ysgol eiddo (2024: 8,120).

Rydym yn parhau i fuddsoddi blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn gwella'r profiad cyfryngol, gan ei gwneud yn haws i froceriaid wneud busnes gyda ni wrth i ni gael ein cydnabod fel y Gymdeithas Adeiladu Orau ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid 2024 yng ngwobrau What Mortgage, gwobr yr ydym wedi'i derbyn am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

## Principality Masnachol

Mae ein benthyca yn mynd ymhellach wrth i'n hadran fasnachol helpu i greu cartrefi newydd mewn ardaloedd sydd eu hangen, gan ariannu cartrefi cymdeithasol a phreifat a rhoi hwb i'r ddarpariaeth tai fforddiadwy. Gyda dyheadau i gyrraedd £1bn yn 2026, tyfodd y llyfr benthyca ar gyfer y busnes masnachol 9.3% ers dechrau 2025 i £867m (2024: £793m), gyda £70m wedi'i fenthyg i Gymdeithasau Tai (2024: £51m).

Gan ategu ein llwyddiant yng Nghymru, rwy'n falch iawn bod y busnes masnachol wedi cymryd ei gamau ystyrlon cyntaf i farchnad cymdeithasau tai Lloegr, drwy gytundeb benthyca gyda Rochdale Boroughwide Housing Limited. Bydd y £20m o gyllid a ddarperir gan Principality yn mynd tuag at gynnal a gwella stoc bresennol y gymdeithas dai o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy yn ardal dwyrain Manceinion Fwyaf.

Mae'r busnes masnachol yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol allweddol, wrth i ni barhau i gryfhau ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru, i helpu mwy o bobl i brynu eu cartref eu hunain, adfywio canol trefi a darparu cyllid i'r mwyafrif o gymdeithasau tai yng Nghymru[1]. Er bod amodau'r farchnad yn heriol a phwysau fforddiadwyedd yn golygu bod cyfanswm nifer y cartrefi a ariennir yn 2025 yn is na'r llynedd (2025: 60; 2024: 247), mae'r cyfuniad o ffocws strategol a'r gostyngiad yn y gyfradd sylfaenol ym mis Rhagfyr wedi cryfhau'r prosiectau yn y dyfodol yn sylweddol.

## Busnes cynilo – helpu mwy o bobl i gynilo

Mae 2025 wedi bod yn flwyddyn gref arall i'n busnes cynilo, gyda mwy o bobl yn dewis cynilo gyda Principality, ac yn gwneud hynny'n rheolaidd,

mwy nag erioed o'r blaen gyda 94,521 o Aelodau yn ystod 2025 (2024: 81,871).

Mae ein twf cynilion yn bwysig, oherwydd fel cymdeithas cydfuddiannol, mae ein morgeisi yn cael eu hariannu gan gynilion ein Haelodau. Heb ein cynilwyr neu chi, ein Haelodau, ni fyddem yn gallu benthyca. Darparu gwerth teg i chi, ein Haelodau, yw'r hyn sy'n ein gwahaniaethu oddi wrth fanciau traddodiadol, sy'n canolbwyntio ar enillion i gyfranddalwyr.

Fel 6ed cymdeithas adeiladu fwyaf y DU, mae'n bwysig ein bod yn benthyg ein llais i ymgyrchoedd sy'n llywio'r farchnad gynilo, a dyna pam yr oeddem yn falch o ymuno â Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu a chymdeithasau cydfuddiannol a chydweithredfeydd eraill i alw ar y Llywodraeth i amddiffyn terfyn cyfrifon ISA Arian Parod. Yn y pen draw, cafodd y terfyn ei ostwng i £12,000 ar gyfer pobl dan 65 oed, sydd yn llawer uwch na'r gostyngiad a gynlluniwyd yn wreiddiol. Mae hyn yn golygu bod llais cydfuddiannol, ac felly llais ein bron i hanner miliwn o Aelodau, yn cael ei glywed ar lefel uchaf y Llywodraeth.

Y gwahaniaeth yw'r Aelodau sy'n ein gwneud yn wahanol. Rwy'n falch bod Principality yn darparu cyfraddau cynilo cystadleuol sy'n gwobrwyo eich teyrngarwch yn gyson.

**Gwerth £88m wedi'i ddychwelyd i'r Aelodau drwy gyfraddau cynilo uwch na chyfartaledd y farchnad[2]**

Dylai dechrau ar y daith i gynilo fod mor syml â phosibl ac mae'n flaenoriaeth i'r busnes – boed ar-lein neu yn bersonol yn un o'n 54 o ganghennau neu ein 15 o leoliadau asiantaeth.

Gyda hyn mewn golwg, rwy'n falch o adrodd bod gwaith wedi dechrau ar gyflwyno cam cyntaf ein ap symudol newydd, yn dilyn lansiad ein gwefan newydd yn 2024.

Ochr yn ochr â'n teithiau digidol, roeddwn yn falch iawn o atgyfnerthu ein hymrwymiad i'n rhwydwaith canghennau tan o leiaf 2030[3] wrth i mi ddechrau ar fy rôl fel Prif Swyddog Gweithredol ym mis Tachwedd. Wrth i fanciau traddodiadol dynnu'n ôl o gymunedau, mae Principality yn parhau i fod wedi'i wreiddio yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Dyna pam y gwnaethom adleoli ein cangen hanesyddol yn Abertawe i leoliad mwy canolog eleni, gan gydnabod pwysigrwydd dewis i Aelodau sy'n byw yn lleol.

Trwy ein gwefan a lansiwyd yn ddiweddar, ein ap newydd pan ddaw, neu yn un o'n canghennau, rydym yn ymrwymo i ddarparu cynhyrchion o ansawdd uchel i'r farchnad a chynnig dewis i'n cwsmeriaid, cryfder a gydnabyddir yn eang wrth i ni gael ein henwi y Darparwr Cynilo Cymdeithas Adeiladu Gorau yng ngwobrau mawreddog Moneyfacts 2025.

## Gwneud gwahaniaeth yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu

Fel y darparwr gwasanaethau ariannol sydd â'r ôl troed canghennau mwyaf yng Nghymru, rydym yn gwybod bod ein heffaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, ystyrlon. Roeddwn yn falch o weld lansio 5ed rownd ein Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol, a welodd £500,000 yn cael ei ddosbarthu i brosiectau mewn cymunedau lleol.

Yn 2025 hefyd lansiwyd ein partneriaeth gyda'r elusen blant Barnardo's Cymru. Trwy haelioni cydweithwyr ac Aelodau, mae dros £237,000 wedi'i godi, gan gefnogi plant agored i niwed yn uniongyrchol mewn cymunedau ledled y wlad. Mae'r cyfraniad hwn yn dod â chyfanswm yr arian yr ydym wedi ei godi ar gyfer elusennau i fwy na £2m ers 2014 wrth i ni barhau i fuddsoddi yn ein cymunedau.



Yn Principality, nid yw cynhwysiant ac amrywiaeth yn fentrau annibynnol; maen nhw'n rhan annatod. Dyna pam, er bod ein canran o fenywod mewn arweinyddiaeth ychydig yn is nag yn 2024 (44% yn 2025, 46% yn 2024), rydym yn dal i fod tipyn yn uwch na'n targed o 40%.

## Edrych ymlaen

Mae hon yn foment dyngedfennol i'ch Cymdeithas, wrth i ni lywio cyfnod o dwf economaidd cynnil, gan gydbwyso anghenion cynilwyr a benthycwyr wrth i ni wynebu gostyngiadau cyfradd rhagamcanedig Banc Lloegr, tra hefyd yn cydnabod yr angen i fuddsoddi ac esblygu'r busnes ar gyfer y tymor hirach.

Rhaid i ni fod yn feiddgar yn ein penderfyniadau ac arloesi ar gyfer y dyfodol, ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Mae hyn yn golygu ail-ddychmygu sut rydym yn cyflawni ar gyfer Aelodau nawr, fel Cymdeithas ddibynadwy, ddigidol, gyda gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol sy'n hawdd gwneud busnes gyda hi, tra hefyd yn defnyddio ein pŵer ymgynnull yn y sector i ysgogi effaith y tu hwnt i'n graddfa.

Rydym yn gymdeithas gydfuddiannol gyda'r raddfa, yr uchelgais a'r ffocws masnachol manwl a fydd yn galluogi buddsoddiad sy'n parhau i ysgogi canlyniadau ac yn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn berthnasol i chi, ein Haelodau heddiw ac yfory.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus i'ch Cymdeithas.

**Iain Mansfield**
Prif Swyddog Gweithredol

19 Chwefror 2026

[1] Mae Principality Masnachol yn darparu cyllid i 18 o'r 33 o gymdeithasau tai yng Nghymru.
[2] Cyfanswm gwerth y budd i gwsmeriaid CA Principality rhwng Tachwedd 2024 a Hydref 2025, yn seiliedig ar gyfradd gynilo cyfartalog diwedd mis y Gymdeithas o'i gymharu â chyfradd gyfartalog gweddill y farchnad Cyfrifon Cyfredol a Chronfa Ddata Cynilion CACI Ltd ar gyfer cyfrifon cynilo, ac eithrio cyfrifon cyfredol a chynilion gwrthbwyso, ar gyfer 12 mis y flwyddyn.
[3] Byddwn ond yn cau cangen pan fydd angen dirfawr i ni wneud hynny'n weithredol, er enghraifft landlord yn gorfodi terfyn prydles, neu os oes gennym ganghennau lluosog mewn un lleoliad.

# Uchafbwyntiau 2025

**8,277**
**Prynwyr tro cyntaf wedi'u helpu**
2024: 8,120

**70.8**
**Sgôr profiad cwsmeriaid**
2024: 71.7

**18.7%**
**Cymhareb cyfalaf cryf**
2024: 19.8%

**78%**
**Ymgysylltu â chyflogeion**
2024: 81%

**£60 miliwn**
**Elw statudol cyn treth**
2024: £49.2m

**96.6%**
**Morgeisi a ariannwyd gan gynilwyr**
2024: 95.7%

**£70 miliwn**
**Cyllid i Gymdeithasau Tai yng Nghymru**
2024: £51m

**36,183**
**Pobl ifanc a gefnogwyd â MAA***
2024: 50,217

**£1.5 miliwn**
**Ymrwymiadau cymunedol**
2024: £1.5m

* Mentrau Addysg Ariannol

Mae'r mesurau uchod, ac eithrio elw statudol cyn treth, yn fesurau perfformiad amgen. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain yn yr Adroddiad Strategol, ac mae diffiniadau wedi'u cynnwys yn yr eirfa.

# Eich Bwrdd Cyfarwyddwyr



### Iain Mansfield
**Prif Swyddog Gweithredol**

Rwy'n Gyfrifydd Siartredig gyda thros 20 mlynedd o brofiad mewn swyddi arweinyddiaeth uwch ar draws cwmnïau cydfuddiannol, bancio manwerthu, busnesau newydd a busnesau gwasanaethau ariannol defnyddwyr sy'n eiddo i ecwiti preifat yn y DU.



### Simon Moore
**Cadeirydd y Bwrdd**

Mae gen i dros 30 mlynedd yn y sector ariannol yn gweithio i wahanol fanciau, gan gynnwys Rheolwr Gyfarwyddwr Barclays Commercial Cymru a'r De-orllewin. Rwyf hefyd yn gwasanaethu fel cadeirydd sefydliad cydfuddiannol blaenllaw arall, LV=, cwmni yswiriant bywyd y DU.



### Maria Timon Samra
**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Rwyf wedi ennill profiad eang yn lleol ac yn rhyngwladol mewn swyddi uwch weithredol fel Prif Swyddog Gweithredol Tŷ Hafan, Rheolwr Gyfarwyddwr yn KPMG, Cyfarwyddwr Trawsnewid Digidol yn Barclaycard, Partner Ymgynghori Rheoli yn Arthur Andersen, Partner Trawsnewid yn Unisys a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cleientiaid yn Professional Software Systems.



### Jonathan Baum
**Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol**

Mae gen i 30 mlynedd o brofiad mewn bancio domestig a rhyngwladol mewn sefydliadau byd-enwog gan gynnwys Grŵp Bancio Lloyds, Banc Barclays plc a GE Capital.



### Karen Maguire
**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Rwy'n gyfrifydd cymwys (ACA) gyda gradd yn y Gyfraith, ar ôl dechrau fy ngyrfa yn KPMG, gan ennill profiad ar draws archwilio, rheoli risg, archwilio mewnol a llywodraethu ac ar draws ystod eang o ddiwydiannau gan gynnwys gwasanaethau ariannol.



### Garry Stran
**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Mae gen i dros 35 mlynedd o brofiad gweithredol ar draws y sector gwasanaethau ariannol, gyda phwyslais ar reoli risg credyd a thrawsnewid gweithredol a diwylliannol. Rwyf wedi dal swyddi uwch ac anweithredol yn Nationwide, PCF Bank, WH Ireland a Computershare Loan Services. Rwyf hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ac yn Gadeirydd Pwyllgor Risg is-gwmnïau gwasanaethau ariannol The Very Group.



### Debra Williams
**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Rwyf wedi bod ag amrywiaeth o swyddi Cyfarwyddwr Gweithredol ac Anweithredol, yn ogystal â swyddi uwch yn NCR, Cymdeithas Adeiladu Britannia, Tesco Compare a Confused.com.

## Rhagor am y Bwrdd

I weld bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, ewch i **principality.co.uk/boardofdirectors**

# Crynodeb o'r Datganiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025

Mae'r Crynodeb o'r Datganiad Ariannol hwn yn grynodeb o'r wybodaeth yn y Cyfrifon Blynyddol a archwiliwyd, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Datganiad Busnes Blynyddol, a bydd pob un ohonynt ar gael i Aelodau ac adneuwyr yn rhad ac am ddim ar alw ym mhob swyddfa Cymdeithas Adeiladu Principality ac ar y wefan ar **www.principality.co.uk** erbyn 3 Ebrill 2026.

### Crynodeb o Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Crynodeb o Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn cynnwys uchafbwyntiau 2025, Adolygiad y Cadeirydd o'r Flwyddyn ac Adolygiad y Prif Weithredwr o'r Flwyddyn.

Wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Chwefror 2026 ac wedi'i lofnodi ar ei ran gan:

**Simon Moore**
Cadeirydd



**Iain Mansfield**
Prif Swyddog Gweithredol



| Datganiad incwm cyfunol | 2025 £m | 2024 £m |
|---|---|---|
| Incwm llog net | 169.7 | 162.0 |
| Incwm net o ffioedd a chomisiwn | 0.5 | 0.5 |
| Incwm a thaliadau eraill | 1.7 | 1.7 |
| Gwerth teg (colledion)/enillion | (0.5) | 8.9 |
| Treuliau gweithredu | (117.3) | (124.6) |
| Amhariad ar asedau sefydlog | (0.3) | - |
| Darpariaethau amhariad | 6.7 | 3.6 |
| Darpariaethau eraill | (0.5) | (2.9) |
| **Elw am y flwyddyn cyn treth** | **60.0** | **49.2** |
| Treth | (14.8) | (12.6) |
| **Elw am y flwyddyn** | **45.2** | **36.6** |

| Cysoni elw statudol â'r elw sylfaenol | 2025 £m | 2024 £m |
|---|---|---|
| Elw statudol cyn treth | 60.0 | 49.2 |
| **Addaswyd ar gyfer:** | | |
| Colledion/(enillion) gwerth teg | 0.5 | (8.9) |
| **Elw sylfaenol** | **60.5** | **40.3** |

Pwrpas y mesur elw sylfaenol yw adlewyrchu barn y rheolwyr o berfformiad sylfaenol y grŵp, a gyflwynir i gynorthwyo cymhariaeth ar draws cyfnodau adrodd trwy addasu ar gyfer eitemau sy'n effeithio ar fesurau statudol ond yr ystyrir eu bod naill ai'n anghylchol neu'n anreoladwy eu natur. Mae hyn yn cyd-fynd â mesurau a ddefnyddir gan reolwyr i fonitro perfformiad y busnes a llywio penderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol amrywiol.

| Mantolen gyfunol | 2025 £m | 2024 £m |
|---|---|---|
| **Asedau:** | | |
| Asedau hylifol a balansau gyda sefydliadau credyd eraill | 1,772.6 | 2,505.5 |
| Benthyciadau a blaendaliadau i gwsmeriaid | 12,000.6 | 11,284.5 |
| Asedau sefydlog ac asedau eraill | 170.5 | 319.2 |
| **Cyfanswm yr asedau** | **13,943.7** | **14,109.2** |
| **Rhwymedigaethau:** | | |
| Cyfranddaliadau | 11,583.8 | 10,798.8 |
| Benthyciadau | 1,463.1 | 2,447.9 |
| Rhwymedigaethau eraill | 97.4 | 108.7 |
| Rhwymedigaethau budd-daliadau ymddeol | – | 0.1 |
| Cronfeydd wrth gefn | 799.4 | 753.7 |
| **Cyfanswm ecwiti a rhwymedigaethau** | **13,943.7** | **14,109.2** |

## Datganiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau ac Adneuwyr Cymdeithas Adeiladu Principality

Rydym wedi archwilio'r Crynodeb o Ddatganiadau Ariannol Cymdeithas Adeiladu Principality ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025, sy'n cynnwys y crynodeb o'r Datganiad Incwm Cyfunol a'r Crynodeb o'r Fantolen Gyfunol ynghyd a'r Crynodeb o Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

## Cyfrifoldebau priodol Cyfarwyddwyr ac archwilwyr

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Crynodeb o'r Datganiad Ariannol, yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig.

Ein cyfrifoldeb ni yw adrodd i chi ein barn ar gysondeb y Crynodeb o'r Datganiad Ariannol o fewn yr Adolygiad Busnes â'r datganiadau ariannol llawn, y Datganiad Busnes Blynyddol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'i gydymffurfiaeth â gofynion perthnasol Adran 76 o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 a'r rheoliadau a wneir oddi tani.

Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adolygiad Busnes ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r Crynodeb o'r Datganiad Ariannol.

## Sail y farn

Roedd ein harchwiliad yn cynnwys cysoni'r balansau yn y Crynodeb o'r Datganiad Ariannol â'r datganiadau ariannol llawn, y Datganiad Busnes Blynyddol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol llawn y Gymdeithas yn disgrifio sail ein barn archwilio ar y datganiadau ariannol llawn hynny.

## Barn ar y Crynodeb o'r Datganiad Ariannol

Yn ein barn ni, mae'r Crynodeb o'r Datganiad Ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn, y Datganiad Busnes Blynyddol ac Adroddiad Cyfarwyddwyr Cymdeithas Adeiladu Principality ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025 ac mae'n cydymffurfio â gofynion cymwys Adran 76 o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 a'r rheoliadau a wnaed oddi tani.

## Defnydd o'n hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r Gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 76(5) o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986. Mae ein gwaith wedi'i wneud er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r Gymdeithas y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac at unrhyw bwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r Gymdeithas ac aelodau'r Gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, am ein hadroddiad archwilio, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Deloitte LLP

**Deloitte LLP**
Archwilydd Statudol
Manceinion, Y Deyrnas Unedig

19 Chwefror 2026

## Crynodeb o Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol y Cyfarwyddwyr

Mae'n bleser gennym rannu crynodeb o Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol y Cyfarwyddwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025; gallwch ddod o hyd i'r adroddiad llawn, a fydd ar gael ar-lein yn **principality.co.uk/about-us/your-principality/financial-reports** o 3 Ebrill 2026 ymlaen.

## Cydnabyddiaeth Ariannol y Cyfarwyddwyr Gweithredol

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad o bolisi Cydnabyddiaeth Ariannol y Cyfarwyddwyr Gweithredol yng nghyd-destun strategaeth y Gymdeithas ac uchelgeisiau 2030. Ers yr adolygiad polisi diwethaf yn 2021, rydym wedi ail-fframio ein strategaeth, gan ganolbwyntio ar dair conglfaen allweddol: Gwell cartrefi, dyfodol diogel a chymdeithas decach. Rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth dyfu'r busnes a chefnogi mwy o gwsmeriaid wrth i'n cyfran o'r farchnad o fusnes morgeisi newydd dyfu o 0.27% ar ddechrau 2021 i 0.94% a chyfanswm y cynilwyr yn tyfu 12%. Mae maint ein sefydliad wedi tyfu, a chyfanswm asedau wedi cynyddu 28% dros yr un cyfnod, gan ein gwneud ni y chweched gymdeithas adeiladu fwyaf yn y DU.

Yn sail i'r polisi newydd mae'r egwyddorion gwobrwyo canlynol:

1. Dylai cwantwm a strwythur pecynnau cydnabyddiaeth ariannol fod yn ystyriol o'n diwylliant fel Cymdeithas Adeiladu sy'n eiddo i Aelodau, ond ystyried arferion ehangach y tu allan i'r sector er mwyn sicrhau bod y Gymdeithas yn gallu denu a chadw uwch-swyddogion talentog.
2. Dylid pennu cydnabyddiaeth ariannol sefydlog a chyfanswm targed a chyfanswm uchafswm cydnabyddiaeth ariannol drwy gyfeirio at lefelau canol y farchnad, gyda mwy o bwyslais ar gymdeithasau adeiladu o'i gymharu â phob grŵp cymheiriaid a chymhwyso gostyngiadau priodol i ddata cymheiriaid y sector bancio a gwasanaethau ariannol rhestredig.
3. Bydd cyfran sylweddol o'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yn dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad i sicrhau bod y pecyn cydnabyddiaeth ariannol yn gystadleuol mewn perthynas â'r sector. Bydd tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn cynnwys elfennau tymor byr a hirdymor.
4. Dylai diwylliant perfformiad gael ei adlewyrchu yn y Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol trwy aliniad cryf rhwng perfformiad a gwobr a phwysoliad ystyrlon â metrigau ariannol ar draws cymhellion yn ei gyfanrwydd.
5. Dylai strwythurau cymhelliant fod yn hawdd eu deall, yn dryloyw a dylent osgoi cymhlethdod diangen.

Dangosodd ein hadolygiad o'r polisi yn erbyn meincnodau marchnad fod y pecynnau cydnabyddiaeth ariannol presennol, o ran cyflog a chyfanswm safle tâl amrywiol, yn sylweddol is na'r farchnad o gymharu â'r holl bwyntiau cyfeirio a ystyriwyd.

Ar ben hynny, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r arfer marchnad sy'n esblygu yn y sector gwasanaethau ariannol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a fyddai'n debygol o gynyddu ein bwlch i'r farchnad os na chymerir camau mewn perthynas â thâl. Ar adeg mor dyngedfennol yn y sector ac i'r Gymdeithas, mae'n bwysig iawn bod y Gymdeithas yn gallu denu, cadw a chymell ein cyfarwyddwyr gweithredol a'n huwch arweinwyr yn briodol. Mae gwneud hynny'n hanfodol i sicrhau llwyddiant y Gymdeithas a darparu gwerth gwirioneddol i'n Haelodau.

O ystyried y ffactorau a'r risgiau hyn, mae'r Pwyllgor yn gwneud dau newid allweddol i bolisi:

- **Bydd y cynlluniau REA ac LEA yn cael eu disodli gan un cynllun bonws blynyddol.** Y cyfle uchaf arferol fydd 62.5% o gyflog Cyfarwyddwyr Gweithredol a bydd perfformiad yn seiliedig ar gymysgedd o fesurau ariannol ac anariannol a sgôr rhagoriaeth perfformiad personol unigolyn. Dim ond os yw'r unigolyn yn

cyflawni'r perfformiad mwyaf posibl o dan bob elfen o'r bonws, ynghyd â chyflawni'r sgôr perfformiad unigol uchaf posibl o "Rhagorol". I'r gwrthwyneb, gall sgôr rhagoriaeth perfformiad "Datblygu" leihau unrhyw fonws a enillir o dan y targedau i sero. Ni fydd unrhyw ohirio yn berthnasol i daliadau o fonws blynyddol 2026.

- **Bydd cynllun cymhelliant hirdymor (yr LTIP) yn cael ei gyflwyno o 2026 ymlaen.** Bydd cylchoedd LTIP blynyddol yn cael eu lansio bob blwyddyn, gyda thaliadau yn cael eu hasesu dros y cyfnod tair blynedd canlynol. Yr uchafswm y gellid ei ennill o dan yr LTIP ar gyfer 2026 yw 65% o gyflog y Prif Swyddog Gweithredol a 50% o gyflog Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill, yn amodol ar gyflawni'r holl dargedau perfformiad yn llawn.

Mae'r amodau perfformiad ar gyfer y cymhellion hefyd wedi'u hadolygu yng ngoleuni strategaeth y Gymdeithas, ac mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn yr adran "gweithredu polisi" isod.

Mae'r polisi newydd yn galluogi'r Pwyllgor i ddarparu pecynnau cystadleuol i'r farchnad i gyfarwyddwyr gweithredol gyda chyfran uwch o'r cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei ddarparu trwy dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Mae hyn yn golygu y bydd uchafswm cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gyflawni dim ond ar gyfer cyflawni targedau perfformiad ymestyn sy'n ysgogi ac yn cynyddu gwerth i Aelodau.

Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol eraill wedi'u gwneud i'r polisi ond gwnaed mân ddiwygiadau i sicrhau aliniad â'r arfer gorau ac i sicrhau bod gan y Pwyllgor hyblygrwydd priodol wrth weithredu'r polisi o flwyddyn i flwyddyn. Mae Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol y Cyfarwyddwyr newydd wedi'i nodi'n llawn yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## Cyfanswm ffigur sengl o gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol

Mae'r graff a'r tabl isod yn darparu crynodeb o'r ffigur cyfanswm cydnabyddiaeth a archwiliwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025 ar gyfer pob un o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a chymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Mae buddion yn cynnwys yswiriant bywyd, yswiriant salwch critigol ac yswiriant meddygol preifat.

| Gwybodaeth a archwiliwyd Unigolyn | Blwyddyn | Cyflog Sylfaenol £000 | Buddion Trethadwy £000 | Pensiwn £000 | Tâl Amrywiol £000 | Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ariannol £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Iain Mansfield**[1] | 2025 | 382 | 5 | 31 | 64 | 482 |
| | 2024 | 338 | 3 | 26 | 112 | 479 |
| **Julie-Ann Haines**[2] | 2025 | 432 | 6 | 39 | 31 | 508 |
| | 2024 | 469 | 5 | 38 | 157 | 669 |

1 Penodwyd Ian Mansfield, y Prif Swyddog Ariannol blaenorol, yn Brif Swyddog Gweithredol yn ystod y flwyddyn. Cynyddwyd cyflog Iain Mansfield i £500,000 ar adeg ei benodi'n Brif Swyddog Gweithredol ar 13 Hydref 2025 a chymerodd drosodd y rôl yn Prif Swyddog Gweithredol ar 21 Tachwedd 2025.

2 Gwnaeth Julie-Ann Haines, y Prif Swyddog Gweithredol blaenorol, gamu i lawr o'i rôl a'r Bwrdd ar 20 Tachwedd 2025.

## Cydnabyddiaeth Ariannol y Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae'r tabl canlynol yn darparu'r strwythur ffioedd ar gyfer ein Cyfarwyddwyr Anweithredol, yn effeithiol o fis Chwefror 2025. Mae ein ffioedd yn cynnwys elfen ffi sylfaenol ac elfen ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau ychwanegol fel rôl Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol neu gadeirio Pwyllgor, i adlewyrchu'r lefel ychwanegol o gyfrifoldeb.

Mae ffioedd y Cyfarwyddwr Anweithredol wedi cael eu trin yr un ffordd â'r gweithlu ehangach o ran ystyried cystadleurwydd y farchnad a'r un lefel o gynnydd a gymhwyswyd iddynt. Yn dilyn adolygiad yn 2025, arweiniodd hyn at gynnydd i ffioedd NED o rhwng 2.8% a 3.7%.

| Rôl a Strwythur Ffioedd | Ffi 2025 |
|---|---|
| **Cadeirydd / Cadeirydd Enwebiadau a Llywodraethu** | £165,000 |
| **Aelod o'r Pwyllgor** | £60,000 |
| **Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol** | £10,280 |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol** | £15,720 |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Risg** | £15,720 |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio** | £15,720 |

Mae'r tabl canlynol yn darparu'r wybodaeth a archwiliwyd sy'n dangos ffigur cyfanswm sengl o gydnabyddiaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2025 ar gyfer pob un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac yn cymharu'r ffigur hwn â'r flwyddyn flaenorol.

| Gwybodaeth a archwiliwyd Cyfarwyddwr Anweithredol | Ffioedd | |
|---|---|---|
| | 2025 £000 | 2024 £000 |
| **Simon Moore**<br>Cadeirydd y Bwrdd o Gyfarwyddwyr | 165 | 151 |
| **Claire Hafner**<br>Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (tan fis Medi 2025) a Chyfarwyddwr Anweithredol tan 31 Rhagfyr 2025 | 90 | 73 |
| **Debra Williams**<br>Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol | 90 | 73 |
| **Jonathan Baum**<br>adeirydd Pwyllgor Risg y Bwrdd ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol | 110 | 83 |
| **Shimi Shah**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 60 | 58 |
| **Karen Maguire**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio (o fis Medi 2025) | 65 | 19 |
| **Maria Timon Samra**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 60 | 9 |
| **Garry Stran**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 59 | - |
| **Cyfanswm** | **699** | **466** |

# Hysbysiad o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2026

**Bydd Cymdeithas Adeiladu Principality yn cynnal ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 11am ddydd Gwener 17 Ebrill 2026 yng Ngwesty'r Marriot, Lôn y Felin, Caerdydd, CF10 1EZ ac ar lein at y dibenion canlynol:**

## Penderfyniadau Arferol

1. Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad Busnes Blynyddol, y Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad yr Archwilwyr am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025.

   Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon sydd ar gael yn **principality.co.uk/AGMhub** neu drwy ymweld â'ch cangen lleol.

2. Cymeradwyo'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025, fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

   Mae'r bleidlais yn argymhellol. Nid yw hawl y Cyfarwyddwyr i gydnabyddiaeth ariannol yn dibynnu ar basio'r penderfyniad hwn. Mae fersiwn lawn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol y Cyfarwyddwyr yn ymddangos yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, a cheir crynodeb yn Nhaflen Uchafbwyntiau 2025 (gan gynnwys y Crynodeb o'r Datganiad Ariannol).

3. Ailbenodi Deloitte LLP yn Archwilwyr tan ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

   Mae'r Bwrdd yn cynnig ailbenodi Deloitte LLP yn Archwilwyr y Gymdeithas, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau yn y Cyfarfod.

4. Ethol ac ailethol Cyfarwyddwyr:
   a) Ailethol Jonathan Baum
   b) Ailethol Karen Maguire
   c) Ailethol Iain Mansfield
   d) Ailethol Simon Moore
   e) Ailethol Garry Stran
   f) Ailethol Maria Timon Samra
   g) Ailethol Debra Williams

Ceir rhagor o wybodaeth am bwy sydd ar eich Bwrdd Cyfarwyddwyr ar dudalen 8 neu ar-lein yn **principality.co.uk/AGMhub**

Mae'r Cadeirydd yn cadarnhau bod yr holl Gyfarwyddwyr presennol sydd am gael eu hethol neu eu hailethol yn parhau i fod yn effeithiol a'u bod wedi ymrwymo'n gryf i'r rôl.

**Mae'r Bwrdd yn argymell eich bod yn pleidleisio 'O blaid' pob un o'r penderfyniadau cyffredin ac 'O blaid' ethol neu ailethol pob un o'r Cyfarwyddwyr.**

**Drwy Orchymyn y Bwrdd.**

**Dana Christie**
Ysgrifennydd y Gymdeithas
19 Chwefror 2026

## Ymuno â'r cyfarfod

Mae ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn rhoi cyfle i Aelodau gael dweud eu dweud ar sut rydym yn cael ein rhedeg. Nid oes angen i chi ddod i'r cyfarfod ei hun i gymryd rhan, gallwch wneud hynny'n llawn (gan gynnwys gallu pleidleisio a gofyn cwestiynau) drwy ymuno ar-lein. Ewch i **attend.cesjoinin.com/login**, Manylion Adnabod y Cyfarfod 30422.

Bydd angen eich dau god diogelwch arnoch i fewngofnodi sydd yn eich gohebiaeth bleidleisio wreiddiol y byddech wedi'i gael drwy'r post neu e-bost.

Byddwn hefyd yn ffrydio ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn fyw yn ein canghennau yn Abertawe, Henffordd a Wrecsam.

Yn y canghennau hyn, byddwch yn gallu pleidleisio ar-lein gan ddefnyddio eich dyfais eich hun. Ceir manylion llawn y cyfeiriadau ar **principality.co.uk/branch-finder**. Ceir manylion ymuno ar-lein yn **principality.co.uk/AGMhub**.

## Nodiadau

1) Mae'r Nodiadau hyn yn rhan o'r Hysbysiad o'r Cyfarfod.

2) O dan Reolau'r Gymdeithas, caiff Aelod sydd â hawl fod yn bresennol yn y Cyfarfod a phleidleisio benodi un dirprwy i fod yn bresennol a phleidleisio ar ei ran.Cewch benodi Cadeirydd y Cyfarfod neu unrhyw un arall i fod yn ddirprwy, ac nid oes rhaid i'ch dirprwy fod yn aelod o'r Gymdeithas.Caiff eich dirprwy ddod i'r Cyfarfod (naill ai yn y lleoliad ei hun neu ar-lein) a phleidleisio ar eich rhan. Ni chaiff eich dirprwy siarad ar eich rhan yn y Cyfarfod ac eithrio i fynnu pleidlais neu i ymuno ag eraill i fynnu pleidlais. Cewch benodi dirprwy drwy'r post neu ar-lein gan ddefnyddio gwefan bleidleisio annibynnol ddiogel y Gymdeithas, a cheir rhagor o fanylion am hyn yn y canllaw i bleidleisio.

3) Cewch ddweud wrth eich dirprwy sut i bleidleisio yn y Cyfarfod. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen pleidleisio drwy ddirprwy.

4) Y dyddiad pleidleisio yw dyddiad y Cyfarfod, sef dydd Gwener 17 Ebrill 2026, os ydych yn pleidleisio eich hun, ac 11am ddydd Mercher 15 Ebrill 2026 os ydych yn pleidleisio drwy ddirprwy.

5) I fod yn bresennol a phleidleisio yn y Cyfarfod, neu benodi dirprwy, mae'n rhaid i chi fod yn gymwys naill ai fel Aelod-gyfranddaliwr neu Aelod-fenthyciwr.

### Aelod-gyfranddalwyr

**a. I fod yn gymwys fel Aelod-gyfranddaliwr, mae'n rhaid i chi –**

i) fod yn 18 oed o leiaf ar 17 Ebrill 2026, os ydych yn unigolyn;

ii) bod wedi dal cyfranddaliadau* gwerth dim llai na £100 yn y Gymdeithas ar 31 Rhagfyr 2025; a

iii) sicrhau nad ydych wedi rhoi'r gorau i ddal cyfranddaliad* neu gyfranddaliadau* yn y Gymdeithas ar unrhyw adeg rhwng 31 Rhagfyr 2025 a'r dyddiad pleidleisio.

**b.** Pan fo cyfranddaliadau* yn cael eu dal ar y cyd gan ddau neu fwy o bobl, dim ond y cyntaf a enwir yng nghofnodion y Gymdeithas mewn cysylltiad â'r cyfranddaliadau hynny* fydd ag unrhyw hawliau pleidleisio.

(* Mae cyfeiriad at 'cyfranddaliad' neu 'cyfranddaliadau' yn gyfeiriad at gyfrif cyfranddaliadau a agorwyd neu gyfranddaliadau a ddyroddwyd gan y Gymdeithas yn unol â Rheolau'r Gymdeithas.)

### Aelod-fenthycwyr

**a. I fod yn gymwys fel Aelod-fenthyciwr, mae'n rhaid i chi –**

i) fod yn 18 oed o leiaf ar 17 Ebrill 2026, a

ii) bod mewn dyled i'r Gymdeithas heb fod yn llai na £100 mewn cysylltiad â dyled morgais ar 31 Rhagfyr 2025; a

iii) bod mewn dyled i'r Gymdeithas heb fod yn llai na £100 mewn cysylltiad â dyled morgais ar y dyddiad pleidleisio.

**b.** Pan fo dyled morgais yn ddyledus ar y cyd gan ddau neu fwy o bobl, dim ond y cyntaf a enwir yng nghofnodion y Gymdeithas mewn cysylltiad â'r morgais hwnnw fydd ag unrhyw hawliau pleidleisio.

6) Yn ogystal â hyn, **dim ond unwaith y cewch bleidleisio** fel Aelod, ni waeth –

**a.** faint o gyfrifon sydd gennych ac a oes gennych wahanol gyfrifon mewn gwahanol swyddogaethau (er enghraifft, ar eich rhan eich hun ac fel ymddiriedolwr), ac

**b.** a ydych yn gymwys i bleidleisio fel Aelod-gyfranddaliwr ac Aelod-fenthyciwr.

**AR-LEIN**

Ewch i **principality.co.uk** neu ein sianeli cymdeithasol
i wybod y diweddaraf gan gynnwys ein horiau agor.

**YMWELD**

Ewch i **principality.co.uk/branch** i ddod o hyd i'ch cangen agosaf.

**CYSYLLTU**

Os hoffech gysylltu â ni ffoniwch **0330 333 4000•** neu anfonwch e-bost **enquiries@principality.co.uk**.

Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras, Braille a thâp sain ar gais drwy ffonio 0330 333 4000•

• To help us maintain our service and security standards, telephone calls may be monitored and recorded.

Principality Building Society is authorised by the Prudential Regulation Authority and regulated by the Financial Conduct Authority and the Prudential Regulation Authority, reference number 155998. Principality Building Society, Principality House, The Friary, Cardiff, CF10 3FA. principality.co.uk

SFS CD 03/26-1

Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu

**principality.co.uk**